

EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

Rhif 79 – Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl 6 ac iau (YC) dim mwy na 12 mewn nifer
'Help' – Casia Wiliam



Eisteddfod

Cainc: Aran Benllyn (2) – Gwennant Pyrs (1122)
ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn unig

HELP

Blantos Cymru, a welwch chi'r glaw?
Fy nagrau yw'r rhain, yn disgyn mewn braw.

Blantos Cymru, a glywch chi fy sgrech?
Mae'r salwch yn taenu i bob man fel brech.

Blantos Cymru, rwy'n peswch, yn tagu –
yr holl fwg a'r plastig, mae'n anodd anadlu.

Blantos Cymru, rwy'n sgrechian mewn panig –
rwy'n hiraethu am yr iâ a orchuddia yr Arctig.

Blantos Cymru, a deimlwch chi'r gwres?
Mae'n llosgi fy nghroen, dod yn nes ac yn nes.

Blantos Cymru, a fedrwch chi addo
bod yn wahanol – eich bod chi am drio?

Blantos Cymru, a wnewch chi fy ngwarchod?
Mae amser o hyd i ddad-wneud y difrod.

Blantos Cymru, os y gweithiwch ynghyd,
fe rof i chi'r cwbl – fe rof i chi'r byd.

Aran Benllyn 2

Gwennant Pyrs

